Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1426 Dylid gosod goleuadau traffig wrth gylchfan McDonald's ym Mhont-y-pŵl

Y Pwyllgor Deisebau | 20 Mai 2024
Petitions Committee | 20 May 2024

**Cyfeirnod:** SR24/8621-3

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1426

**Teitl y ddeiseb:** Dylid gosod goleuadau traffig wrth gylchfan McDonald's ym Mhont-y-pŵl

**Geiriad y ddeiseb:** Bu nifer o ddamweiniau eisoes wrth y cylchfan hwn (A472/A4042). Gyda'r cynnydd mewn traffig i'r siop Aldi newydd, bydd yn fater o amser cyn y bydd marwolaethau.

## 1. Y cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys yr A4042. Asiant Cefnffyrdd De Cymru sy'n gyfrifol am weithredu a chynnal a chadw'r ffordd o ddydd i ddydd.

Mae CrashMapUKsy'n llunio map rhyngweithiol o ddata gwrthdrawiadau traffig a gofnodwyd gan yr heddlu, yn dangos 20 mân-ddigwyddiad a 3 digwyddiad

difrifol ar y gylchfan dan sylw neu wrth ddynesu ati rhwng 2018 a 2022. Mae canllawiau ar y diffiniadau a ddefnyddir i gategoreiddio digwyddiadau'n cael eu cyhoeddi gan yr Adran Drafnidiaeth. Dylid nodi bod y data ond yn cynnwys gwrthdrawiadau a arweiniodd at anaf personol ac a gafodd eu hadrodd i'r heddlu o fewn 30 diwrnod i'r ddamwain.

Mae'r gylchfan y cyfeiriodd y deisebydd ati wedi'i chynnwys yn y cynnig gan gynllun arfaethedig Lywodraeth Cymru, A4042 Coridor y De, Pont-y-pŵl i'r M4.

## Cynllun A4042 Coridor y De, Pont-y-pŵl i'r M4

Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael am y cynllun yn cyfeirio'n benodol at osod goleuadau traffig ar y gylchfan hon. Mae adroddiad y panel adolygu ffyrdd ar y cynllun (a drafodir ymhellach isod) yn dweud bod y prif elfennau'n cynnwys adeiladu llwybr beicio 2.5km, addasiadau i bum cylchfan (heb gynnwys yr un y cyfeiriodd y deisebydd ati) ynghyd â "mesurau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ar raddfa fach". Byddai terfyn cyflymder 50mya dros dro hefyd yn cael ei wneud yn barhaol wrth ddynesu at gylchfannau.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod gan y rhan hon o'r ffordd gyfradd gwrthdrawiadau uchel, cyfleoedd cyfyngedig i gerdded neu feicio'n ddiogel a darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig. Mae'r cynllun wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth.

Mae asesiad WelTAG (Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru) Cam Un ar y cynllun wedi'i gwblhau, yn ogystal ag asesiad cam dau interim. Mae bellach yn destun yr asesiad cam dau olaf yn sgil adolygiad ffyrdd Llywodraeth Cymru.

## Yr adolygiad ffyrdd

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Lee Waters AS, y cyn-Ddirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, y byddai panel adolygu ffyrdd yn cael ei sefydlu i adolygu buddsoddiadau ffyrdd arfaethedig Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd y cyn-Ddirprwy Weinidog y byddai pob cynllun ffordd newydd yn cael ei atal pan oedd y cynlluniau presennol yn cael eu hadolygu.

Cyhoeddodd y panel ei adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2023. Wrth ymateb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi ffyrdd newydd sy'n gosod pedwar prawf adeiladu ffyrdd.

Ar Gynllun A4042 Coridor y De, canfu'r panel fod yr achos dros newid "wedi'i gyflwyno'n rhannol" ac argymhellodd y gallai Llywodraeth Cymru barhau i

gefnogi'r cynllun ond y dylid ei adolygu yn unol â'r polisi newydd. Ar y gylchfan benodol dan sylw, mae dadansoddiad o ddata gwrthdrawiadau sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad y panel "yn awgrymu y gallai problem fod gyda gwrthdrawiadau" yma.

Fel yr amlinellwyd, mae Llywodraeth Cymru ynllunio adroddiad WelTAG cam 2 terfynol ar y cynllun i gysoni'r prosiect â'i phrofion adeiladu ffyrdd yn y dyfodol. Mae'n dweud y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yng "[n]gwanwyn 2024".

## 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mewn llythyr at y Cadeirydd ar 26 Ebrill, mae Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, yn amlinellu gwelliannau a wnaed eisoes ar y gylchfan dan sylw, gan gynnwys croesfan i gerddwyr a'r terfyn cyflymder 50mya.

Mae'n cyfeirio at gynnwys y cynllun yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth ac mae'n dweud y "bydd y cynllun yn cael ei ystyried ochr yn ochr â chynlluniau eraill tebyg ledled Cymru a bydd yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael".

## 3. Camau gan Senedd Cymru

Yn 2019 cyflwynodd Lynne Neagle AS gwestiwn ysgrifenedig ar nifer y damweiniau ar y gylchfan y cyfeiriodd y deisebydd ati. Cyfeiriodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd at yr asesiad WelTAG cam un a gynhaliwyd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.